



Barcod coch, Nant yr Arian, Aberystwyth, Mai 1af, 2013 Llun: Alun Williams

## Troi Tir Glas

...pan ddoi Mawrth i mewn byddai yn rhaid bwrw i droi tir glas.... dyma lle y byddai pob wagner gwerth ei halen yn rhoi ei orau yn ei grefft, gorau oll os medrai'r meistr fforddio i brynu un o erydr y clybiau i'r fferm.... Nid troi rywsut rywsut a wnâi y tro, byddai yn rhaid penderfynu ymhle i agor. Wedi gosod polion syth fel haul drwy dwll, cael twyswr er mwyn cadw'r ceffylau mewn llinell mor unionsyth ag yr oedd modd, a thorri, yr hyn a alwem yn gripiad, rhyw gŵys fach oddeutu dwy fodfedd o ddyfnder a honno yn berffaith union ar hyd y cae. Wedyn mesur dwy droedfedd ar hugain a thorri cŵys gyffelyb



yn gyfochrog a dyna'r ddau gripiad bach wedi eu cwplhau [sic]. Y gŵys nesaf oedd yn bwysig, byddai yn ofynnol dyfnhau i ryw bedair modfedd a thorri cŵys fyddai yn gorwedd yn daclus ar y cwysi bach blaenorol ac yna ei gwynebu gyda chwys gyffelyb [sic.]. Erbyn hyn, dylai'r ddwy gŵys yr agoriad fod ar ei hongl a'u dwy grib yn wastad fel dau do tŷ. Y gamp fyddai cadw at yr un gwastadrwydd drwy gydol y gwaith, gan droi i fesur pump wrth saith, yr hyn fyddai saith modfedd o grib i grib a phum modfedd o ongl. Byddai yn ofynnol dewis y man cywir ar y copstol i gynorthwyo'r trôwr i fedru dal a rhoi pwysau ar yr ystyllen er mwyn troi yn galed i osgoi tyllau yn yr âr i'r hadyd fynd o'r golwg wrth hau.

"Arferion a Chwaraeon ardal y Parc erstalwm" (traethawd am rai arferion amaethyddol a arosai yng nghof "Hen Ddwylo", cystadleuydd yn un o Eisteddfodau cylch y Parc, Y Bala. Fe'i hysgrifennwyd yng nghanol yr 1960au gan Tybir mai O.T Jones, Llwynmafôn (Tu Du gynt) oedd yr awdur. Gyda chaniatad a diolch i'r teulu ac i Carys Dafydd (Llun bach: Ras Redig Llŷn 2011)

## Taith ar y Carneddau 17 Ebrill 2013

...a be welson ni - pum ceffyl/ebol wedi marw i gyd, esgryn eira'n dal ar y topia, a choed wedi eu malurio islaw'r Rhaeadr Fawr.



Wrth ymyl y Rhaeadr Fawr ei hun, roedd pob coeden wedi ei niweidio gan un ai rew'n ffurfio yn yr oerni o'r dŵr oedd yn chwyrlïo o'r Rhaeadr ei hun ac yn peri i'r brigau gwmpo dan ei bwysau, neu gan wynt yn chwyrlïo mewn storm go fawr, ond beth bynnag oedd y rheswm, roedd yn amlwg

bod y difrod yn eitha eithafol ac anghyffredin.

Wrth i ni gerdded i lawr am Aber ei hun wedyn, mi welson ni fod un o'r ceblau anferth sy'n croesi'r cwm wedi cwmpo rai cannoedd o droedfeddi o'r peilonau uwchben, ac roedd y peiriannydd wrth ei ymyl yn deud mai cwta deng munud oedd yna ers i hwn ddod i lawr - dihangfa lwcus i'n criw ni.

Llun a stori: Haf Meredydd



Bu i tua 100 o goed ddisgyn yng Nghoedydd Aber o flaen y gwynt mawr dydd lau 21 Mawrth. Dyma rai ohonynt.

Llun a stori: Hywel Roberts

Mi fydd oblygiadau i'r cen sydd o bwys gwyddonol ar y safle, ac i waith tymor hir arolwg y gwybedog brith (Gol.)

## Cynnal Cadoedd....MWY

Ym Mwletin 51 (tud. 4) soniodd Howard Williams ac eraill am cadoedd neu leciau'r grugiar ddu. Ewch yn ôl i'w ail-ddarllen yng Nghylchgrawn 51.

Ac wedyn edrychwch ar y clip fideo hwn gan Keith O'Brien ar ein sianel You Tube

<http://www.youtube.com/watch?v=QNTRJ42pj2A&feature=share>



## Dyfodiad y Gwanwyn

Bu Huw Holland Jones yn mesur dyfodiad y gwanwyn y ei ardd yn Llys Awel ers 1995. Un dull safonol mae o yn ei ddefnyddio yw mesur y "t-sum" (gweler isod\*).


Fel y gwelir yn y graff, er dechrau yn o lew, erbyn diwedd Ebrill

(diwrnod 121) llusgodd gwanwyn eleni i'r safle gwaethaf ers i Huw dechrau cofnodi.

Fe welwch, yn ôl y mesur hwn mai 1996 oedd y gwanwyn arafaf a chymryd diwedd Mai fel y trothwy (llinell syth pinc; 2010 a chymryd diwedd Ebrill - llinell sth melyn), 2011 oedd y mwyaf ar y blaen (o safbwynt Ebrill a Mai).

Erbyn rwan (21 Mai) mae gwanwyn eleni a gwanwyn 1996 yr un mor hwyr a'i gilydd.

\*Y t-sum yw'r swm crynhoadol dyddiol o'r tymheredd cyfartalog dyddiol o 1 Ionawr ymlaen pan mae hwnnw yn fwy na 5.5C. Os yn hynny neu lai, yna ni ychwanegir dim i'r cyfanswm.



## Glesyn y celyn

Glesyn y Celyn yn ardal Gallt Melyd, Mai 22, 2012.

Cyfeirnod grid: SJ 059805

Llun: Eifion Griffiths

Ac eleni, 7 Mai 2013:

"Glesyn y celyn yn mynd a dwad trwy'r prawn yn yr ardd ddoe hefyd - y cyntaf eleni". Ni fu'n dywydd tan heddiw i groesawu'r cyfaill hwn i'r ardd. Fe all ymddangos ym mis Ebrill - mewn blynyddoedd ffafriol?

Dyma'r blynyddoedd y cafwyd glesynnod celyn ym mis

Ebrill yn ôl Tywyddiadur Llên Natur

DB, Waunfawr

Towyn, Abergale, 11 Ebrill 1923; Dyfnaint 20 Ebrill 1992; Kew, Llundain: 30 Ebrill 1994; Ynys Môn: 10 Ebrill 2003\*; Llanfairfechan: 19 Ebrill 2004; Dyfnaint: 11 Ebrill 2007\* (ac eto y flwyddyn hon yn Waunfawr ar yr 21ain); Dyfnaint: 22 Ebrill 2008\*

Y Tywyddiadur

\* sef blynyddoedd a gwanwyn cynhesach nag arfer (t-sum+5.5 yn fwy na 400C ar y 31 Mai. Cyfartaledd 1995-2012: 380C. Dim gwybodaeth cyn 1995. Y flwyddyn 2004 yn eithriad - ond hwnnw o ardal cynhesach yn ne Lloegr.)

Data: Huw Holland Jones, Llys Awel, Waunfawr



## Tinwen ymhob cae

Un peth a fu'n nodwedd o wanwyn 2013 oedd y fflyd o dinwennod y garn a'n cyrhaeddodd ddiwedd Mawrth ac a arhosodd yn ein caeau gydol Ebrill a hud yn oed hanner cyntaf Mai (cyn un ai ymsefydlu yma a pharu neu symud yn eu blaenau am y gogledd)

Tinwen y Garn yng Ngwarchodfa Natur Conwy, Mawrth 26, 2013.

Llun: Eifion Griffiths




## Llwch Sahara ym Môn?



Llwch (o'r Sahara?) ar y car erbyn bore. Bodorgan 4 Mai 2013  
Llun: Wil Williams

A dyma ddywed y meteorolegydd o Lansadwrn, Don Perkins:  
*I had decided that dust here was contaminated by the*

*local farmer's activities. This is a problem at this time of year. On seeing the Aberffraw image I have reviewed my decision. It certainly looks like Saharan dust, right colour. I looked into when it might have fallen. There was drizzle and rain just after midnight on the west coast until about 03 GMT on the 4th May, it is likely that the dust was washed out then. I have found no direct trajectory from N Africa, but it appears that the dust originated from a pool of dust collected in a high-pressure system N of the Azores. This pool of dust probably came from the Saharan region, but may have come from elsewhere. HYSPLIT1 shows parcels of air arriving over Anglesey at 200m, 1500 m and 3000 m,*



*the lower levels corresponding with cloud heights from midnight to 03 GMT. HYSPLIT2 at higher levels shows the likely pool area (in the Azores high) as far back as the 21st April (the longest I am allowed to run the model). There were heavy dust plumes blowing over the Canary Islands off N Africa on previous days.*

**Backward trajectories were done by D Perkins using the HYSPLIT transport and dispersion model on the NOAA Air Resources Laboratory's READY website (<http://ready.arl.noaa.gov/>) DP**

## Hen frenhinbren Pontfadog



*The 1,200 year old Pontfadog Oak, the oldest oak in Wales, and probably one of the oldest oak trees in Northern Europe, which is said to have grown near Chirk in*

*Wrexham since 802 fell over during gusts of winds on Wednesday night [17 Ebrill 2013]. It is known that the Welsh Prince Owain Gwynedd rallied his army under the tree in 1157, before taking on, and defeating the English King Henry II at the battle of Crogen nearby.*

**Llun a sylw: Gwefan Coed Cadw**

Beth am luniau o'r hen goeden yn ei ogoniant cyn y storm Gol.

## Bioflits Parc Dydli

Cafwyd rhestr hirfaith o 187 math o lepidoptera wedi eu recordio yng Ngwarchodfa Natur Leol Parc Dydli, Waunfawr dros y blynyddoedd (yn ôl bas data gwasanaeth cofnodi Cofnod [www.cofnod.org.uk](http://www.cofnod.org.uk)). Yn y Bioflits a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2013 cafwyd 4 rhywogaeth nad




oedd ar y rhestr ac nas cofnodwyd yno felly o'r blaen. Dyma un ohonynt, sef yr adain welw (*Lithophane hepatica*, neu'r *pale pinion* yn Saesneg). Dim ond saith adain welw a ddeliais erioed (ers i mi ddechrau trapio gwyfynod yn 1996), pob un yn y gwanwyn cynnar ag eithrio un yn yr hydref – a phob un mewn coed collddail. Gwyfyn yr hydref yw'r

adain welw, ond sydd yn gaeafgyngu ac yn ail ymddangos drachefn yn nhywydd braf Ebrill a Mai y flwyddyn ganlynol. Mae ei larfa yn bwyta pob math o ddail coed a llwyni yn ei gynefin. Braf ei weld mewn gwanwyn gyda'r mwyaf llwm a welwyd ers blynyddoedd.

**Duncan Brown**

## Eira ar Ynys Tenerife



Yn dilyn storm enfawr ar y 4ydd o Fawrth 2013 roedd gorchudd trwchus o eira o thua 7000 troedfedd uwch y mor hyd y copa (12,198 tr.) ar Fynydd Teide, mynydd uchelaf

Sbaen, Ynys Tenerife. Roeddem yn cerdded hyd 8500 troedfedd ar y 3ydd gyda ambell damaid o eira yno pryd hynny. Fe barodd yr eira weddill yr wythnos er bod y tymheredd hyd 24 gradd canradd ger y môr.

**Llun a stori: Ieuan Roberts**

A dyma beth oedd yn weddill o'r eira erbyn 4 Ebrill 2013



**Llun: Trystan ab Ifan**

## Chwilod ar y traeth



Wrth gerdded ar hyd traeth Dinas Dinlle bore'r 9 Mai eleni cawsom tua phump o chwilod (roedden ni'n tybio i ddechrau mai buchod coch cwta oeddynt) yn hedfan ar hyd y traeth (o'r môr efallai?). Tybed ydi chwilod yn mewnfudo dros y môr weithiau? Fe ddeliais un yn y rhywyd a thynnu'r llun hwn ohono wedyn. (Dechreuodd y bore yn

gwbl dawel ond cododd awel o'r tir erbyn i ni weld y chwilod)

**Llun a stori: Duncan Brown**

Meddai John Bratton: *It is an Aphodius, a dung beetle, either fimetarius, pedellus or foetens.*

## Llyffantod dafadennog



Degau o lyffantod dafadennog yn paru, Gwarchodfa natur RSPB Conwy, Ebrill 15ed eleni. Dyma lun dau ohonynt.

Llun: Alun Williams

Mae'n amlwg bod y llyffantod dafadennog yn paru'n hwyr yng Nghonwy eleni. Mae

yndau gofnod digamsyniol o lyffantod dafadennog yn paru mewn blynyddoedd a fu - yndau ym mis Mawrth.

Olwen Evans, Bryn Celyn, Rhostryfan SH494574

10 Mawrth 2012: Griff y broga yn lynnau yn y pwll yn yr ardd erbyn hyn a'r broga yn crawcian yn arw. Gwelson fadfall yn symud yn y pwll hefyd

Roedd rhai Olwen y llynedd (mae hi'n son am lynnau o griff) yn arbennig o gynnar ar sail y dystiolaeth hon. A dyma un arall o 1777:

Weston Longville, Norfolk 25 Mawrth 1777: My great pond full of large toads, I never saw such a quantity in my life and so large, was most of the morning in killing them, I daresay I killed one hundred, which made no shew of being missed, in the evening more again than there were, I suppose there are thousands of them there, and no frogs...

James Woodforde

Pam ar y ddaear oedd o'n teimlo bod rhaid eu lladd? Gol.

## Pigion o'r papurau bro: Llety Wallter (Rhwng Pentre Gwynfryn a Phenbont, Llanbedr)

Dyma 'chydig o hanes Llety Wallter (Wallter) a gefais gan yr awdures Rhiannon Davies Jones gan ei nodi'n fryslog ar ddarnau o bapur a chefn amlenni (hen dro na ddysgais law fer!).

Haf Meredydd

Credid fod Llyn Llety wedi ei greu i ddwy chwaer Plas Aberartro gael lle diddos i roi eu traed yn y dŵr, ac yn lle hyfryd a thawel i ymlacio yng ngwres yr hafau a fu. Mae olion y llyn yna o hyd ond erbyn hyn drain a choed gwern sydd â'u traed yn y dŵr bellach. Mae yna argae cul ar y pen agos i Werncymerau - tybed ai cyflenwi dŵr i dai ystâd Aberartro oedd pwrpas y llyn? Yn ôl y sôn bu farw mab Llety Wallter ac fe daenwyd lliain gwyn dros yr arch fel arwydd o farwolaeth unigolyn ifanc iawn. Ni wyddir ymhle y'i claddwyd - stori arall ydy bod gwr, gof wrth ei alwedigaeth, ar ei ffordd adra o fod wedi bod yn casglu dyledion yn Harlech, wedi cael ei lofruddio, a bod y llofrudd wedi cuddio'r sofrenni mewn cwdyn yn un o furiau Llety Wallter tua 1890. Doedd yno neb yn byw ar y pryd.



Mae Llety yn awgrymu lle i aros. Tybed a oedd y murddun yma yn llety i borthmyn? Yr oedd gefail gerllaw, a chae i gadw'r gwartheg dros nos (fe fyddai hen nain Penbont, Ann

Owen, yn rhentu'r cae yma i gadw buwch dros yr haf).

Mae'n bosib fod yna lwybrau'r porthmyn yn bwydo i mewn i'r prif lwybr yn Llety Lloegr a throsodd i Fontddu.

Felly ai mynd i fyny heibio Efail Llety dros Pen y Bont heibio i'r Fron Dosdaidd, dros Sarnau'r Geifr ac i fyny i Ben Rallt Fawr ac ymuno yn Llety Lloegr, neu groesi'r afon yn is i lawr ac i fyny heibio'r Allt Goch, ac Uwchlaw'r Coed ac ymlaen heibio Cors y Gedol? Pwy a wyr ynte?

Mae Coed Llety Walter bellach yn Warchodfa Natur Genedlaethol dan ofal Coed Cadw.

## Datblygiad y dail

Tynnwyd y llun uchaf yn Y Groeslon, Waunfawr ar y 3 Mai 2012 (sef gwanwyn y llynedd). Prin oedd yr onnen (ar y dde) wedi dechrau deilo na blodeuo, ond roedd y dderwen (ar y chwith) â dal ir newydd braff arni.



Tynnwyd y llun isaf ar y 15 Mai eleni (2013), cryn bythefnos yn hwyrach. Erbyn hynny roedd yr onnen wedi blodeuo ond roedd yr hen dderwen yn dal i straffaglio agor ei dail.

Dyna ydi stori gwanwyn eleni - popeth sydd yn arferol yn



gynnar yn cael eu gwthio ymlaen mewn amser i ymddangos gyda phethau sydd yn arfer bod yn hwyrach. Mae'r dywediad Saesneg, yn ddi-ystyr ar sawl cyfrif:

*Ash before the oak - we're in for a soak*

*Oak before the ash - we're in for a splash*

Oes yna rhywun yn rhywle yn gallu profi eu bod nhw wedi gweld yr onnen yn deilio cyn y dderwen?

Lluniau a stori: DB

## Heth 1880 – 1881

Eleni, gwelsom aeaf oer a hir. Wrth i mi drawsgrifio rhai o ddyddiuron Edward Evans, yr oeddwn yn sylweddoli bod rhywbeth tebyg wedi digwydd yn ystod y gaeaf 1880 – 1881. Ffermwr oedd EE ac yr oedd yn cofnodi'r tywydd bob dydd. Fe'i syfrdanwyd gan eira buan a syrthiai ar 20 Hydref 1880. Yr oedd hyn yn gychwyn wythnos o dywydd oer. Ail-gychwynnodd y tywydd hynod o oer yn y flwyddyn newydd ar 4 Ion 1881 efo rhew caled am wythnos. Parhâi'r tywydd hwn efo wythnos eiräog ar yr 11 Ion 1881. Gwaethygodd y tywydd fwy fyth ar 17 Ion 1881 efo storm eira tri diwrnod, ac fe gafodd ei adrodd mewn papurau newyddion yn fynych. Yn ei ddyddiadur, mae EE yn cyfeirio at achos o fenyw a aeth ar goll yn ystod y storm, a bron colli ei bywyd. Yr oedd ganddi blant adref heb wres. Parhaodd y tywydd oer tan ddiwedd y mis, a disgrifiai EE y problemau a wynebai wrth geisio teithio o gwmpas gogledd Sir Benfro yr adeg honno oherwydd y lluwchfeydd a fu'n gyndyn iawn o ddadlaith.

Bu pwl o dywydd oer arall, yn hwyr ym mis Chwefror â'r pridd yn rhy galed i aredig. Wedyn, o 20 Mawrth 1881 tan 8 Ebrill 1881 yr oedd rhew caled pob nos. Hyd yn oed ym mis Mai 1881, mae EE yn cofnodi effeithiau'r heth:

10 Mai 1881: torri eithyn – y rhew wedi lladd yr holl eithyn ym mhob man.

Eisiau gwybod mwy? ewch at Y Tywyddiadur.

Lari Parc